

Tamprwydd a Llwydni



Os oes Llwydni Du ac anwedd yn eich cartref, mae'n arwydd bod aer eich cartref yn rhy wlyb.

Mae aer bob amser yn cynnwys rhywfaint o anwedd dŵr, sy'n amrywio yn ôl tymheredd yr aer. Po gynhesaf yw'r aer, y mwy o anwedd aer a all ddal. Gall aer oerach ddal llai.

Mae **anwedd** yn digwydd pan fydd dŵr yn anweddu yn yr aer y tu mewn i'r tŷ ac yn ffurfio ar arwyneb oer. Gall ddigwydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Bydd yn ffurfio fel 'niwl' neu ddiferion dŵr ar waliau, teiliau, lloriau concriid a sistern y tŷ bach. Gall hyd yn oed ddigwydd mewn dillad sydd wedi'u lapio'n agos at ei gilydd yn y cwpwrdd neu mewn droriau!

Llwydni. Mae had llwydni bob amser yn yr aer ac maent yn egino wrth ddod i gysylltiad ag arwyneb sy'n damp oherwydd anwedd neu ddŵr glaw yn treiddio drwodd. Mae'r llwydni'n edrych fel smotiau du (y mwyaf cyffredin), llwyd neu wyrdd bach ar y wal neu ar arwynebau eraill. Fel arfer gwelir llwydni o amgylch ffenestri, ar waliau allanol ac mewn coridorau allanol uchel. Os oes llwydni du yn tyfu'n isel, nid tamprwydd yn codi ydyw fwy na thebyg ond lleithder yn eich cartref yn annog y llwydni i dyfu.

Caiff **anwedd dŵr** ei greu drwy weithgareddau bob dydd fel anadlu, chwysu, golchi, coginio, ymolchi, sychu dillad a llosgi tanwydd fel nwy neu baraffin.

Mae'r wybodaeth hon yma i'ch helpu i reoli anwedd a llwydni. Ni fydd y llwydni'n diflannu o'i wirfodd. Rhaid i denantiaid a landlordiaid at ei gilydd gymryd camau i'w atal neu ei reoli. Darllenwch yn ofalus.



PERYGLON:

Tamprwydd a Llwydni

EFFEITHIAU IECHYD ARFEROL:

Yn gysylltiedig â chael mwy o widdon llwch mewn tai, llwydni a ffwng yn tyfu, problemau o ran iechyd meddwl a lles cymdeithasol, salwch cardiofasgwlaidd ac anadlol.

FFAITH:

Bydd cartref cyffredin yn cynhyrchu 112 peint o leithder yr wythnos drwy goginio, ymolchi ac anadlu. Mae sychu dillad yn y cartref yn ategu hyn.

Rhentu
Doeth
Cymru
Rent
Smart
Wales



Pam bod ots os oes anwedd neu llwydni yn y cartref?

Had llwydni sy'n achosi i llwydni dyfu, a chânt eu rhyddhau i'r atmosffer wrth i llwydni dyfu. Maen nhw'n rhy fach i'w gweld, yn hawdd eu hanadlu ac yn achosi alergeddau hefyd. Maent bob amser yn yr awyr. Y cyfan sydd ei angen arnynt i egino yw lleithder (anwedd) a bwyd (llwch).

Mae **gwiddon llwch y cartref** yn byw yn eich carpedi, matresi, clustogau ac ati. Maen nhw'n rhy fach i'w gweld. Dydy'r gwiddon eu hunain ddim yn broblem. Fyddan nhw ddim yn eich niweidio eu hunain. Y broblem yw eu gwastraff. Mae mor fach ei fod yn hawdd ei anadlu, a gall achosi alergedd. Mae llawer o leithder cynnes yn eu hannog i genhedlu'n gyflym iawn!



DYMA PAM EI BOD YN BWYSIG IAWN I LANDLORDIAID A THENANTIAID GYFRANNU AT LEIHOU ANWEDD YN Y CARTREF

Gall dod i gysylltiad â lefel uchel o bethau sy'n achosi alergedd dros gyfnod hir eich gwneud yn fwy sensitif iddynt. Unwaith i hynny ddigwydd, gall ychydig bach ohonynt sbarduno adwaith ac yn achosi tisian, trwyn yn rhedeg, haint llygaid, cosi, ecsema, peswch a gwichian.

Gall achosi asthma ymhlith rhai pobl yn yr hirdymor.

Mae tua 1,500 o bobl yn marw o asthma bob blwyddyn. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod asthma yn gwaethygu pan fo mwy o leithder, gwiddon llwch y cartref a llwydni yn yr amgylchedd.

Er mai llwydni a gwiddon llwch yw'r rhannau pwysicaf o'r broblem, mae pethau eraill y mae angen i chi wybod am lefel uchel o leithder.

- Mae "aer gwlyb" yn effeithlon iawn am ddargludo gwres. Byddwch yn defnyddio mwy o ynni yn eich cadw chi a'ch cartref yn gynnes os yw'ch cartref yn rhy laith a bod eich dillad a'ch waliau'n damp o'r herwydd.
- Caiff yr henoed, plant bach a phobl â salwch cronig anhawster wrth reoli tymheredd eu corff. Mae'n arbennig o bwysig bod y grwpiau hyn yn byw mewn tai cynnes, sych.
- Mae llawer o leithder ac anwedd yn bygwth ffabrig eich cartref. Gall achosi i bapur wal a phaent blicio, pren i bydru, lloriau pren a deunydd pren arall i gamdroi a chwyddo, a chydannau metal i gynyddu. Mae hefyd berygl o gael sioc drydanol os defnyddir switsys tra eu bod yn wlyb o anwedd.
- Os ydych yn denant, gallech wynebu colli rhan o'r blaendal, neu'r cyfan ohono, am y difrod a achosir.

MEDDYLIWCH:
Wrth beintio ceginau ac ystafelloedd gwely, sicrhewch eich bod yn defnyddio'r paent priodol (paent cegin/ystafell ymolchi arbennig neu blisgwy acrylig), gan y bydd yn amsugno llai ac yn haws ei lanhau.

Anwedd a Llwydni'n Tyfu – Achosion ac Unioni

Mae anwedd a llwydni'n arwydd nad yw'r adeilad neu'r ystafell dan sylw yn cael ei wresogi a'i awyru'n ddigonol.

Mae teulu cyffredin yn cynhyrchu 20 peint (5 galwyn neu tua 12 litr) o leithder bob diwrnod. Meddyliwch amdano fel dau fwcad a hanner yn llawn dŵr – dyma faint o leithder y mae'n rhaid i'r tŷ ymdopi ag ef.



Gallwch leihau lleithder yn eich cartref drwy:

Sychu dillad tu allan neu roi diwedd pibell anwedd y peiriant sychu dillad tu allan.



Rhedeg y dŵr oer cyn y dŵr poeth wrth wneud bath. Gadewch ddrws yr ystafell ymolchi ar gau tra bod y bath yn llenwi i leihau lledaeniad y stêm. Pan fyddwch wedi gorffen, agorwch y ffenestr led y pen am tua awr, neu nes i'r dafnau olaf o leithder ddiiflannu o'r ffenestr a'r waliau. Os oes ffan awyru yn yr ystafell, gadewch y ffenestr ar gau a gadewch y ffan yn rhedeg am tua awr. Os oes gennych wresogydd yn yr ystafell ymolchi, dylech ei droi ymlaen o leiaf awr cyn i chi fynd i'r ystafell ymolchi. Os oes gennych wres canolog, sicrhewch fod tymheredd yr aer yn yr ystafell hon o leiaf 21 C. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant dan 5 oed a phobl dros 60 oed, neu bobl â salwch hirdymor.

Peidio â sychu'ch dillad y tu mewn ar awyru neu ar reiddiaduron.

Peidio â defnyddio gwresogyddion nwy potel neu baraffin hylif. Mae'r rhain yn cynhyrchu 8 peint (5 litr) o anwedd dŵr am bob galwyn o danwydd a losgir. Bydd y dŵr yn anweddu ar eich waliau a'ch ffenestri.

Cadwch gaeadau ar badellau wrth goginio, gan gadw drws y gegin ar gau a gadael y ffenestr ar agor/y ffan awyru arnodd.



Mewn 99.99% o achosion, gwresogi ac awyru'n gywir yw'r ateb i gael gwared ag anwedd a llwydni. Dyma pam fod yn rhaid i denantiaid fod yn gyfrifol am y ffordd maent yn byw yn eu cartref.

AWYRU:

Os yw'r aer yn eich tŷ'n cylchredeg, mae'n tynnu aer llaith i'r awyr agored drwy ffenestr agored, drysau, awyrdyllau, ffans, aerfriciau a simneiau ac yn ei gyfnewid am aer ffres. Mae aer awyr agored bob amser yn sychach nag aer o gartref. Os nad yw'r awyru hyn yn digwydd, neu'n digwydd yn wael, bydd aer y tŷ yn dirlenwi a bydd anwedd dŵr yn cronni ar yr arwyneb agosaf neu yn is na thymheredd gwllith. Er mwyn gwneud i aer ffres gylchredeg dylech ystyried rhai o'r rhain:

Gosod ffaniau echdynnu mewn ystafelloedd ymolchi a cheginau. Mae angen i ffaniau echdynnu o leiaf 15 litr yr eiliad mewn ystafell ymolchi. Yn y gegin mae hyn yn codi i 30 litr yr eiliad (os yw wrth lwfer popty) neu 60 litr yr eiliad os yw yn rhywle arall, gan weithredu ar adegau penodol. Nid yw lwfer popty yn ffan echdynnu onid yw'n echdynnu'r aer i'r tu allan. Mae rhai systemau ffaniau echdynnu ar gael a all dynnu'r rhan fwyaf o'r gwres o'r aer a echdynnir a'i chwythu'n ôl i'r ystafell (Awyru Mecanyddol sy'n Adfer Gwres). Bydd angen i denantiaid ofyn i landlordiaid ddarparu un o'r rhain os oes angen.

Sicrhewch fod awyrdyllau ar gael mewn ffenestr gwydr gwbl (llun isod).



Agorwch yr holl ffenestri led y pen nes bod yr anwedd yn diflannu, ac yna eu cau, gan adael bwllch o 1.4 modfedd (5mm) rhwng y sash a'r ffrâm ym mhob ystafell (llun isod).



Osgowch greu pocedi o aer llonydd – sef ardaloedd rhwng dodrefn a waliau allanol, a thu ôl i lenni trymion, gan y bydd y rhain yn annog anwedd i ffurfio gan nad oes aer cynnes yno i gynhesu'r wal a'r dodrefn. Os nad yw'n bosibl rhoi'r dodrefn yn erbyn wal fewnol, gadewch fwllch o tua 3" i 4" (75mm i 100mm). Peidiwch â gorlenwi cypyrddau na droriau.

Os oes gennych danc storio dŵr poeth mewn cwpwrdd, gyda thanc bwydo ac ehangu uwch ei ben, sicrhewch fod ffitiad tynn arno (ond nid mor dynn fel ei fod yn wrth-aer).

Os nad oes gennych le i sychu'ch dillad, ewch â nhw i'r tŷ golchi a gadewch iddynt sychu yno. Os na allwch wneud hyn, ewch â nhw i'r ystafell ymolchi, trowch y gwres ymlaen, agorwch y ffenestr neu trowch y ffan echdynnu arnodd a chaewch y drws.

Cadwch ddrysau ystafelloedd ymolchi a cheginau ar gau i helpu i atal aer llaith rhag cylchredeg i weddill y cartref.

Peidiwch â rhoi'ch matres ar y llawr ei hun.

Agorwch ffenestri wrth smwddio.



GWRESOGI:

Gall aer cynnes ddal mwy o leithder nag aer oer, felly os yw'ch cartref wedi'i wresogi'n ddigonol, mae'n llai tebygol y bydd anwedd ynddo.

Bydd aer cynnes sy'n oeri yn y nos yn dal i achosi anwedd, yn enwedig o amgylch ffenestr mewn tywydd oer. Bydd y rhan fwyaf ohono'n anweddu wrth i chi roi'r gwres ymlaen yn y bore ac wrth i ffenestri gael eu hagog.

Mae eich waliau'n dal gwres. Bydd faint o wres y maen nhw'n ei ddal yn dibynnu ar ba mor drwm yw'r deunydd, y safonau inswleiddio a'r cyfnod y cafodd ei wresogi.

Mae anweddu'n oeri'r waliau mwy, gan arwain at greu mwy o anwedd. Bydd hyn yn dal i ddigwydd nes i chi wneud rhywbeth amdano.

Gallai wal fod yn oer ac achosi anwedd am sawl rheswm:

Mae waliau estyniadau cefn tai hŷn wedi'u hamlygu'n fwy, felly gallent fod yn oerach.

Gallai fod yn wynebu'r gogledd neu fod yr ystafell wedi'i gwresogi'n annigonol, os o gwbl.

Gall gollyngiad o gwter neu bibell wneud rhan o'r wal yn oerach. Dewch o hyd i'r gollyngiad a'i drwsio.

Os yw'r tŷ yn un newydd, mae'n bosibl ei fod yn dal i sychu.

Efallai mai wal friciau 4 modfedd o drwch yw hi, yn arbennig os yw lle arferai fod hen dŷ bach allanol neu gwt glo sydd wedi'u cynnwys i mewn i'r prif dŷ.

Gall coed, gwrychoedd, lonydd cefn neu adeilad cyfagos gysgodi'r ystafell neu'r waliau, gan atal yr haul rhag eu sychu.

Os yw'r tŷ yn rhy oer, byddwch yn sylwi:

Bod eich tŷ, dillad a dillad gwely yn teimlo'n oer a thamp. Bydd arogl trwm, tamp ar y tŷ. Efallai y gwelwch llwydni ar ddodrefn, waliau allanol, mewn cypyrddau, droriau neu ar y ffenestr neu o'u hamgylch, ac ar eich dillad a'ch dillad gwely. Gall papur wal blicio o amgylch ffenestri neu lefydd eraill.

Mae'n cymryd amser maith nes i'ch gwres ddechrau cael effaith, mae'ch waliau yn dal yn oer i'w cyffwrdd ac ni fyddwch chi'n gynnes eich hun o ganlyniad.

Bydd eich biliau tanwydd yn cynyddu'n sylweddol.

Bydd yn anoddach eich cynhesu'ch hun, yn enwedig os ydych yn hen, yn sâl neu'n treulio llawer o amser yn y tŷ.

Cynheswch yr ystafelloedd sydd wedi'u heffeithio arnynt. Mewn cypyrddau tamp sydd wedi'u heffeithio, gall gwresogydd tŷ gwydr trydanol fod yn ddigon cynnes i atal neu leihau'r llwydni. Yn yr un modd, os oes golau mewn cwpwrdd, gall ei adael ymlaen wneud yr un peth. (Sicrhewch fod bwlb mawr rhwng y bwlb ac unrhyw beth fflamadwy).

Yr ateb i'r broblem hon yw cynhesu'r eiddo yn fwy nes bod y wal wedi'i chynhesu i dymheredd sy'n uwch na thymheredd gwllith (ond cofiwch awyru gan fod hyn yn bwysig hefyd). Bydd yn costio mwy i gynhesu'r waliau i ddechrau, ond pan fyddant wedi sychu'n iawn bydd eich biliau gwres yn lleihau.

Gwaredu Llwydni

Os oes llwydni gennych dylech gael gwared arno cyn gynted â phosibl.

Dylech wneud y canlynol:

1. Golchi'r ardal yn drylwyr. Defnyddiwch sebon di-amonïa neu lanedydd, neu ddeunydd golchi masnachol, mewn dŵr poeth a sgwriwch yr ardal gyfan sydd â llwydni arni. Defnyddiwch frws neu bad glanhau ar waliau sment neu arwynebau anwastad. Gwlychwch yr arwyneb â hydoddiad glanedydd cyn sgwrio.
2. Rinsio a sychu. Defnyddiwch gadach tamp i rinsio unrhyw lanedydd sy'n weddill oddi ar yr arwyneb sydd wedi'i drin. Gall hwfer gwlyb/sych fod yn ddefnyddiol i dynnu dŵr a deunydd glanhau.

**TAMPRWYDD
A LLWYDNI**

COFIWCH Mae'r wybodaeth hon a rhagor ar gael yn
www.rhentudoeth.llyw.cymru

3. Dad-heintio. Dylai dadheintyddion gael eu defnyddio i lanhau deunydd yn drylwyr a sicrhau bod y rhan fwyaf o ficro-organebau wedi'u lladd. Felly peidiwch â defnyddio dadheintyddion yn lle glanhau â sebon, na chyn ei lanhau â glanedydd. Ar ôl glanhau a rinsio'r deunydd a ddefnyddioch yn drylwyr; dylech ddefnyddio hydoddiad â 10% cannydd cartref (cwpan 1% cannydd cartref i bob galwyn o ddŵr) fel dadheintydd. Mae defnyddio cannydd yn syth o'r botel yn llai effeithiol na channydd wedi'i wanhau gyda dŵr. Cadwch y dadheintydd ar y deunydd wedi'i drin am yr amser a nodir cyn rinsio neu sychu; fel arfer tua 10 munud am hydoddiad cannydd. Wrth ddadheintio rhywbeth mawr, sicrhewch fod yr arwyneb cyfan yn cael ei wlychu (e.e. y lloriau, trawstiau a physt). Dylech gasglu a gwaredu'r dadheintydd ychwanegol ac unrhyw hylif sy'n weddill.

RHYBUDD: Dylech fod yn ofalus wrth ddefnyddio cannydd a dadheintydd. Ni ddylech byth ychwanegu cannydd at amonia neu gemegau eraill gan y bydd yn cynhyrchu nwy tocsig. Gwisgwch fenig, mwgwd ac offer diogelwch llygaid wrth ddefnyddio dadheintyddion. Gall nwy cannydd effeithio ar y llygaid, y trwyn a'r gwddw, a difrodi dillad ac esgidiau. Sicrhewch fod ardaloedd gweithio wedi'u hawyru'n dda.

4. Glanhau. Taflwch unrhyw ddeunyddiau rhydd â thyllau bychain ynddynt lle na allwch waredu'r llwydni ohonynt, neu le mae'r llwydni wedi dod yn rhan o'r deunydd (e.e. telïau nenfwd, bwrdd plastr, gwaith saer a chynhyrchion pren). Rhowch eitemau â llwydni arnynt mewn bag a'u taflu. Os ydych yn eu golchi'n gywir gallwch eu rhoi â gwastraff y cartref. Sicrhewch fod lefelau lleithder yn isel, a rhowch wresogydd ffan wrth yr ardal yr effeithir arni i sychu'r deunydd. Sychwch yr ardaloedd sydd wedi'u heffeithio am 2-3 diwrnod.
Yna dilynwch y cyfarwyddiadau ar ddechrau'r daflen hon i'w atal rhag digwydd etc

Cartrefi ynni effeithlon,
cynnes ac iach



Mae cynllun 'Nyth' y Llywodraeth (<https://nyth.llyw.cymru/>) yn cynnig ystod o gyngor diduedd am ddim, ac os yw eich tenant yn gymwys, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni i'r cartref am ddim, megis boeler newydd, gwres canolog, inswleiddio, paneli solar neu pwmp gwres.

Cofiwch: Os yw'r tenant wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i atal a rheoli lleithder a thwf llwydni ond mae'r broblem yn parhau, gallai'r Cyngor fynnu bod landlord yn gwneud gwaith ychwanegol. Yn ogystal, gallai'r tenant ystyried yr eiddo yn 'anaddas i fyw ynddo' o dan ei contract.

Beth arall alla i ei wneud?

Peidiwch ag aros nes iddo oeri cyn rhoi'r system wresogi ymlaen. Bydd peidio â defnyddio gwres nes iddi oeri yn golygu y bydd y waliau'n colli y cyfan o'u gwres wedi'i storio. Yna bydd yn cymryd llawer hirach, ac yn costio llawer mwy, i'r system awyru eu cynhesu ddigon i chi deimlo'n gyfforddus.

DYLECH droi'r gwres i fyny ddiwedd mis Medi (neu'n gynharach os yw hi'n oer) a gosod y prif thermostat i dymheredd sydd o leiaf 21 C. Os oes gennych falfiau rheiddiadur thermostatig yn eich ystafelloedd dylech eu gosod fel eu bod yn sicrhau tymheredd sydd o leiaf 18 C (anelu at tua 21-22C mewn ystafelloedd byw). Bydd y system wresogi yna'n rhoi digon o wres i gynnal tymheredd yr adeiledd yn uwch na thymheredd gwllith.

I ddefnyddio Gwresogyddion Economy 7 neu Night Storage, dylech wrando ar ragolygon y tywydd ac addasu'r gosodiadau gan ystyried tymheredd y diwrnod wedyn.

Ar y rhan fwyaf o wresogyddion E7 neu Night Storage bydd 2 fotwm. Yn gyffredinol, bydd yr un ar y dde yn rheoli'r gwres sy'n dod i mewn a'r un ar y chwith yn rheoli'r gwres sy'n mynd allan. Mae'r un ar y chwith (gwres sy'n mynd allan) yn rheoli fflap yn y gwresogydd. I gadw'r ystafell ar dymheredd rhesymol bydd angen i chi ei newid i alluogi gwres i ddianc yn raddol drwy'r dydd. Yn aml, mae 1-10 wedi'u nodi o amgylch y botymau. Yn gyffredinol, pan fydd hi'n fwyn (rhwng 10 a 18 Celsius) dylai'r botwm rheoli'r gwres i mewn fod rhwng 4 ac 8. Pan fydd hi'n oer (10 Celsius neu'n llai) dylech ei droi i 8 neu uwch.

Bydd y mathau hyn o wresogyddion yn sicrhau tymheredd sydd o leiaf 18 Celsius, ond nid yw hwn yn dymheredd cyfforddus a fwy na thebyg bydd angen i chi ategu'r gwres gyda gwresogydd darfudol (convector) pan fydd hi'n oer iawn.

Peidiwch â gor-awyru drwy adael eich ffenestri led y pen drwy'r dydd pan fydd hi'n oeri – bydd eich waliau'n colli'r holl wres sydd ynddynt.

DYLECH agor y ffenestri led y pen am gyfnodau byr yn y bore am tua 30-60 munud, ac yna'u cau bron yn gyfan gwbl (gan adael bwllch tua 5mm) neu ar unrhyw amser y gwelwch anwedd yn ffurfio ar y gwydr. (Ond cofiwch ystyried diogelwch y cartref wrth adael ffenestri yn agored pan nad oes neb gartref)

COFIWCH fopio unrhyw ddŵr sy'n cronni ar wydr y ffenestr neu sil y ffenestr. Gwasgwch y cadach gwlyb wrth y tŷ bach neu mewn sinc, peidiwch â'i adael ar y sil. Bydd hynny'n creu rhywle i fwy o anwedd gronni yn y dyfodol.

Peidiwch â rhoi eich gwres ymlaen am gyfnodau byr (awr neu lai) – bydd hyn yn gwaethygu'r broblem. Mae'r aer yn cadw anwedd dŵr yn gyflymach nag y mae waliau'n cynhesu. Pan ddiffoddir y gwres, mae'r aer yn oeri'n gyflym iawn ac anwedd yn cronni'n gyflym, gan oeri'r waliau ymhellach.

DYLECH roi'r gwres ymlaen am o leiaf 3 awr ar y tro. Gosodwch yr amserydd i ddod ymlaen am 4am neu 5am (pan fo'r aer oeraf) ac i ddiffodd awr ar ôl i chi adael am y gwaith. Yn ystod y dydd, dylech ei osod i ddod ymlaen am o leiaf awr cyn i chi ddod adref o'r gwaith a diffodd o leiaf awr ar ôl i chi fynd i'r gwely.

Os ydych gartref drwy'r dydd, rhowch y gwres ymlaen am o leiaf 3 awr ar y tro, neu gadewch y gwres ymlaen drwy'r amser, ond ar dymheredd is.

Mewn tywydd oer iawn, mae'n syniad da gadael eich gwres ymlaen ar lefel isel, p'un a ydych gartref ai peidio.

**TAMPRWYDD
A LLWYDNI**

Pethau i'w hosgoi

Rhentu
Doeth
Cymru
Rent
Smart
Wales



Peidiwch â gadael i hyn:



Droi yn hyn:

MEDDYLIWCH



Bydd pethau fel:



Golchi, Coginio a Sychu Dillad

Yn creu lleithder yn eich tŷ - mae angen i chi gael gwared ar hyn...


GWNEWCH Y CANLYNOL...



Agorwch
Awyrdyllau



Agorwch ffenestr
am gyfnodau byr



Defnyddiwch ffaniau
echdynnu

mewn ceginau ac
ystafelloedd ymolchi



Cadwch dymheredd y
cartref yn gyson



Sychwch ffenestri

OND PEIDIWCH Â:



Sychu dillad tu mewn heb agor ffenestr
Awyru peiriant sychu dillad yn eich cartref, dim
ond tu allan

Os yw dal yn broblem cysylltwch â'ch landlord neu gyngor lleol
Gyda'n gilydd gallwn waredu ar anwedd a llwydni